# CWESTIYNAU I'W GOFYN I'CH YMGEISWYR

SHELTER CYMRU

**Mae Cymru yng nghanol argyfwng tai.**

Does dim ateb cyflym ond allwn ni ddim parhau fel yr ydym, gan wylio'r argyfwng tai yn dinistrio cymunedau ledled Cymru. Mae angen i bob plaid wleidyddol yng Nghymru ymrwymo i ddod â'r argyfwng tai i ben, a nodi beth fyddant yn ei wneud i sicrhau y gall pawb gael mynediad at y cartref sydd ei angen arnynt. Yn y cyfnod cyn yr etholiad, bydd ymgeiswyr o bob plaid yn ceisio cael cymaint o sgyrsiau ag y gallant gydag aelodau o'r cyhoedd.

Dyma rai awgrymiadau am gwestiynau i chi, i'w gofyn naill ai mewn cyfarfod cyhoeddus neu ar garreg y drws, fel y gallwch ddeall sut y byddai'r bobl sydd eisiau gweithio i chi yn y Senedd yn mynd ati i ddod â'r argyfwng tai i ben. Mae llety dros dro yn rhoi to i aelwydydd digartref, ond mae'n bell o gartref, ond mae rhai pobl wedi bod yn byw mewn llety dros dro ers hyd at ddwy flynedd.

---

1. Mae llety dros dro yn rhoi to i aelwydydd digartref, ond mae'n bell o gartref, ond mae rhai pobl wedi bod yn byw mewn llety dros dro ers hyd at ddwy flynedd.

   **Cwestiwn: Sut fyddech chi'n sicrhau bod llety dros dro yn wirioneddol dros dro a'n bod ni'n cael lle i bobl ei alw'n gartref?**

2. Cymru yw'r unig ran o Brydain Fawr lle gellir troi rhywun allan o'i gartref heb i'r landlord orfod rhoi rheswm iddo.

   **Cwestiwn: A fyddech chi'n cefnogi dod â throi allan heb fai i ben?**

3. Mae ymchwil Shelter Cymru wedi dangos bod 1 o bob 14 aelwyd yng Nghymru yn aros am gartref cymdeithasol.

   **Cwestiwn: A oes gan eich plaid gynllun i gynyddu nifer y cartrefi cymdeithasol yn sylweddol?**

4. Mae digartrefedd a'r risg o ddigartrefedd yn brofiad trawmatig na ddylai neb orfod mynd drwyddo.

   **Cwestiwn: Beth allwn ni ei wneud i roi'r person yn y canol, a sicrhau bod iechyd a llesiant pawb yn cael eu gofalu amdano?**

5. Mae digartrefedd a thai annigonol yn cael effeithiau pellgyrhaeddol ac yn dal Cymru yn ôl. Rydym yn gweld hyn yn glir ym maes iechyd, gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru yn amcangyfrif bod digartrefedd a thai gwael yn costio bron i £100 miliwn y flwyddyn i wasanaethau iechyd rheng flaen.

   **Cwestiwn: A ydych chi'n cytuno, oni bai ein bod yn buddsoddi mewn cartrefi diogel, sicr a fforddiadwy, na allwn fynd i'r afael â'r heriau yr ydym yn eu hwynebu mewn gwasanaethau cyhoeddus eraill fel iechyd?**

**Byddem wrth ein bodd yn clywed sut aeth eich sgyrsiau gyda'ch ymgeiswyr, anfonwch e-bost atom yn:campaigns@sheltercymru.org.uk**

Rhif Elusen Gofrestredig: 515902